

Huw Irranca–Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a
Deddfwriaethol

13 Mehefin 2017

Annwyl Huw

Efallai eich bod yn ymwybodol bod y Pwyllgor Cyllid wedi cael gwybod, yn Rhagfyr 2016, am oedi o ran gosod cyfrifon blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2015–16 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae'r oedi hwn yn ymwneud â darpariaeth y mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru gadw ati, hynny yw, bod yn rhaid iddo adrodd ar y cyfrifon o fewn pedwar mis i'r dyddiad gosod, ac yn yr achos hwn nid oedd hyn yn bosibl gan fod materion gyda'r cyfrifon yr oedd yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol ymchwilio ymhellach iddynt.

Mae'r mater hwn wedi codi o ganlyniad i'r archwiliad o gyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru, ond mae'r terfyn amser statudol o bedwar mis yn bodoli hefyd mewn perthynas â chyrrff eraill yng Nghymru, yn fwyaf nodedig, mae'r ddarpariaeth wedi cael ei hychwanegu at ddeddfwriaeth Gymreig ddiweddar, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

- mewn perthynas ag Awdurdod Cyllid Cymru ([Deddf Casglu a Rheoli Trethi \(Cymru\) 2016, Adran 30\(2\)](#))
- mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol Cymru ([Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016, Atodlen 1, Adran 16\(4\)](#))
- mewn perthynas â Chymwysterau Cymru ([Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Atodlen 1 Adran 33\(2\)](#))
- mewn perthynas â'r Comisiwn Ffiniau i Gymru ([Deddf Llywodraeth Leol \(Democratiaeth\) \(Cymru\) 2013, Adran 19\(4\)](#))

Mae'r sefyllfa gyda chyfrifon blynyddol Cyfoeth Naturiol Cymru 2015–16 wedi amlygu'r diffyg darpariaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru ofyn am estyniad i'r




terfyn statudol o bedwar mis pe digwydd i unrhyw faterion godi gydag archwilio cyfrifon.

Wrth gynnal archwiliad o gyrff cyhoeddus yng Nghymru ni cheir darpariaeth mewn deddfwriaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru ofyn am estyniad i'r terfyn amser statudol o bedwar mis, fel sydd ar gyfer cyfrifon adnoddau y DU o dan y Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Credwn fod hyn yn amryfusedd clir mewn deddfwriaeth Gymreig.

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am y materion hyn yn eich rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mewn cysylltiad â sefydlu cyrff. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'ch Pwyllgor pan fydd cyrff yn cael eu creu drwy orchmynion sefydlu (fel Cyfoeth Naturiol Cymru) yn hytrach na thrwy ddeddfwriaeth sylfaenol.

Yn gywir



Simon Thomas AC

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

